

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid a Staff, 16/12/19

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr I.C.Thomas (Is-gadeirydd) (yn y Gadair), R.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr W.L.Davies, C.Larsen, W.T.Owen, S.Sage, M.Sarnacki

2. Datgan Buddiant Personol

Dim.

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

4. Apêl Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021

Cyflwynwyd - llythyr a dderbyniwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith 2021 a Chadeirydd Cronfa Leol 2021 yn datgan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Foduan yn y flwyddyn 2021, a'r bwriad yw mynd ati yn y flwyddyn newydd i sefydlu pwyllgorau apêl i gyd-fynd â chynghorau tref a chymuned y dalgylch gyda tharged yn cael ei osod i bob un; £30,000 yw'r targed drafft yn achos ardal Caernarfon.

Gellid cyfrannu dros 3 blynedd ariannol pe dymunir.

Nodwyd bod yr eitem hon yn cael ei thrafod o flaen yr eitem ar y Praesept, gan ei fod yn effeithio arno, a bod cyfrifoldeb ar y gymuned yn ei gyfanrwydd i gyfrannu, ac nid dim ond y Cyngor Tref.

Penderfynwyd argymhell cyfrannu'r symiau canlynol tuag at Apêl Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021:

- 2019/20 - £5,000 (er fod £7,000 wedi eu clustnodi yn yr Amcangyfrifon.
- 2020/21 - £5,000
- 2021/22 - £5,000

5. Y Praesept 2020/21

Cyflwynwyd – adroddiad y Clerc ar y Praesept 2020/21.

Nodwyd:

- (1) Bod angen cyflwyno penderfyniad i Gyngor Gwynedd am y Praesept 2020/21 erbyn dydd Gwener y 24ain o Ionawr 2020.
- (2) Y cyflwynwyd Amcangyfrifon gerbron y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 1af o Hydref ac i'r Pwyllgor Cyllid a Staff yn ei gyfarfod ar yr 22ain o Hydref, lle nodwyd bod y costau wedi codi bob blwyddyn, a dyma pam roedd yn ymddangos fod yr arian wrth gefn yn dod i lawr.
- (3) Yn y Cyngor Llawn ar y 1af o Hydref nodwyd bod Adroddiad yr Archwilwyr – BDO – Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019, bod fod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o £243,887, sy'n 107% o gyfanswm y gwariant – a bod angen i'r Cyngor roi ystyriaeth wrth gyllidebu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried Cronfeydd yn ei gyfarfod ar y 22 Hydref, gan ddarganfod faint o arian sy'n dderbyniol i gael wrth gefn, a chynllunio o fewn y ffiniau hynny.
- (4) Yn y Pwyllgor Cyllid a Staff ar yr 22ain Hydref nodwyd, gan nad oedd yr Amcangyfrifon Ariannol yn profi nad oedd y Cyngor Tref yn cadw llai na 12 mis o gostau rhedeg y cyngor wrth gefn, gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda'r Archwilydd Mewnol er mwyn cael mwy o eglurder.
- (5) Yn ogystal penderfynodd y Pwyllgor Cyllid a Staff ar ddiwygiadau penodol, a bod y rhain yn cael eu hymgorffori yn yr Amcangyfrifon diwygiedig, sef Atodiad B.
- (6) Y gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda'r Archwilydd Mewnol er mwyn dadansoddi a chanfod y ffordd ymlaen o ran Amcangyfrifon 2020/21. Byddai'r Cyngor mewn gwell sefyllfa wedyn i ystyried y precept.
- (7) Yn y cyfarfod gyda'r Archwilydd Mewnol nodwyd bod 3 math o gronfeydd, sef "Designated Funds", "Restricted Funds" a "Unrestricted Funds", ac y gellir symud arian yn ôl ag ymlaen rhwng "Designated Funds" ac "Unrestricted Funds".
- (8) Bod materion eraill i'r hystyried, er enghraifft incwm ychwanegol o godi ffioedd parcio 10%; codi'r tâl am logi ystafelloedd cyfarfod yn Adeilad yr Institiwt o 5% bob blwyddyn, am gyfnod o 5 mlynedd, gan gychwyn ym mlwyddyn ariannol 2020/21; trafodaethau i gymryd Parc Coed Helen drosodd; a pharciau eraill.

Nodwyd ymhellach y rhagwelir fod chwyddiant ar gyfer 2020-21 yn 1.5% CPI ar fwyafrif y penawdau, 2.75% ar gost cyflogaeth a 5% ar gytundeb Un Llais Cymru. Nid yw'r rhain wedi eu hymgorffori'n llawn i'r ffigyrau yn Atodiad B gan bod ansicrwydd o ran beth oedd y Clerc blaenorol wedi ei wneud. Adroddir ar hyn yn fanylach yn y cyfarfod.

Nid yw Cyngor Tref Caernarfon wedi cynyddu'r Praesept ers rhai blynyddoedd.

Penderfynwyd

(1) Nodi'r Amcangyfrifon yn Atodiad B gan gydnabod y gellid eu diwygio eto a throsglwyddo mwy fyth o arian i'w wario fel "Designated Funds" o dan benawdau fel:

- Y Liff yn Adeilad yr Institiwt
- Y Gofeb ar y Maes
- Trosglwyddo Cyfrifoldebau Gwynedd
- Adeilad yr Institiwt
- Llochesi bysus.

Byddai hyn yn cyflawni gwaith angenrheidiol fyddai angen ei wneud yn ogystal â lleihau cronfeydd.

(2) Gwneud y diwygiadau canlynol i'r Amcangyfrifon 2020/21 yn Atodiad B:

- O dan y pennawd Gweinyddu, codi'r swm o arian a ddynodwyd ar gyfer y wefan i £2,000, gan newid y pennawd i "Technoleg Gwybodaeth, yn cynnwys y Wefan".
- O dan y pennawd Adeilad yr Institiwt, codi'r swm o arian a ddynodwyd ar gyfer Atgyweirio / Ail Adeiladu i £25,000.

(3) Gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau o ran lle mae'r Cyfrif Argyfwng yn cael ei wario.

(4) Gofyn i'r Clerc ofyn am adroddiad gan Wyl Caernarfon o ran sut mae'r arian yn cael ei wario.

(5) Gofyn i'r Clerc wirio beth yw'r gwahaniaeth i'r taliadau i Eglwys Noddfa a Chanolfan Noddfa.

(6) Yn yr Amcangyfrifon (Atodiad B) creu pennawd "Cyfrifoldebau" a rhoi'r is-benawdau canlynol oddi tano: Gwasanaethau Newydd, Parc Coed Helen, Gwasanaeth Ieuenctid.

(7) Yn sgîl yr holl wybodaeth, peidio â chodi'r Praesept ar gyfer 2020/21.

(8) Yn y cyfarfod o'r Cyngor, sydd i'w gynnal ar y 7fed o Ionawr, 2020, rhoi eitem yn cadarnhau'r incwm o ran parcio o flaen yr eitem ar y Praesept.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____